# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 26 Chwefror 2025 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 3 Mawrth 2025 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 10 Mawrth 2025 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

**PWNC – Gwaredu diddordeb y Cyngor mewn llain o dir yn Harbwr Allanol Pwllheli**

**PENDERFYNIAD**

Gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn darn o dir sydd wedi'i leoli yn Harbwr Allanol Pwllheli ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Gethin Jones (Uwch Syrfewr Stadau) |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 26/02/2025 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc :**

Gwaredu diddordeb y Cyngor mewn llain o dir yn Harbwr Allanol Pwllheli.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Gwaredu diddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn darn o dir sydd wedi'i leoli yn Harbwr Allanol Pwllheli ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae angen Penderfyniad i waredu eiddo pan fod ei werth uwchlaw £25,000 a ddim ar y farchnad agored.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Y dull traddodiadol o sicrhau gwerth gorau am asedau yn unol ag adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yw trwy hysbysebu ar y farchnad agored er mwyn sicrhau'r pris gorau a thryloywder.

Yn achos yr eiddo yma, mae'r safle eisoes wedi ei brydlesu i denant ar brydles tir tymor hir ac mae'r Cyngor wedi derbyn cais gan y tenant i berchen y teitl rhyddfreiniol.


O'r herwydd, mae'r tenant yn fodlon talu elfen o bremiwm er mwyn cyfuno eu les a'r teitl rhyddfreiniol. Pe bai'r Cyngor yn cynnig y safle ar y farchnad agored yn

amodol i'r brydles bresennol, bydd bodolaeth y brydles yn cyfyngu ar y gwerth y byddai trydydd parti yn fodlon ei dalu am y safle.

Nid oes unrhyw fwriad gwaredu am lai na gwerth y farchnad.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**
Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**
Prif Swyddog Cyllid – "Gan nad oes bwriad i waredu am llai na phris y farchnad, nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir."
Swyddog Monitro – "Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y bwriad o safbwynt gofynion Adran 123 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gallaf gadarnhau hefyd fod y gwerth uwchlaw yr hawl dirprwyedig i swyddogion ac yn briodol ar gyfer penderfyniad aelod Cabinet."
Aelod Lleol (Cynghorydd Hefin Underwood) – "Does gen i ddim gwrthwynebiad i hyn"




Cynllun: Plan: **Transfer to Emyr Hughes**

Graddfa / Scale @ A4: 1:1,250

© Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 – Cyngor Gwynedd

Dyddiad: Date: 27/06/2024